**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

# ADRODDIAD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 1999

### Cefndir

O dan dermau'r cynllun hawl gwreiddiol i brynu tai cyngor a ddechreuwyd gan Ddeddf Tai 1985 ("y Ddeddf"), mae'r trosglwyddiad yn ddarostyngedig i gyfamod sy'n ymrwymo'r tenant fel bod yn rhaid, os oes gwerthiant perthnasol o'r annedd o fewn tair blynedd, talu'r gostyngiad a dderbyniwyd (o dan y cynllun) yn ôl.

Mae'r rhwymedigaeth a all godi o dan y cyfamod yn effeithiol fel arwystl cyfreithiol ar yr annedd sydd o dan sylw.

Mae'r arwystl hwn yn cymryd blaenoriaeth yn union ar ôl unrhyw arwystl cyfreithiol sy'n diogelu unrhyw swm a drosglwyddwyd i'r tenant gan "sefydliad benthyca cymeradwy" at bwrpas ei alluogi ef neu hi i fanteisio ar yr hawl i brynu.

Mae adran 156 y Ddeddf yn nodi mathau arbennig o sefydliadau fel "sefydliadau benthyca cymeradwy" ond mae hefyd yn darparu ar gyfer penodi cyrff pellach gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi Mortgages 1 Limited, Mortgages 2 Limited, a Mortgages 4 Limited fel cyrff o'r fath.

Mae’r sefydliadau a enwir gan adran 156 y Ddeddf hefyd yn gymwys i adrannau 36 a 171A y Ddeddf ac adrannau 12 a 16 Deddf Tai 1996.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ni ystyrir fod unrhyw bwyntiau o dan Reol Sefydlog 11.5 y dylai’r Pwyllgor eu hadrodd i’r Cynulliad fel rhai’n gofyn am sylw arbennig.

**Sylwadau Cyffredinol ar y Rheoliadau**

Dylai’r troednodion ymddangos mewn ffurf dwy-golofn ar y copi printiedig o’r Gorchymyn hwn.

Yn ogystal, dylid nodi’r flwyddyn berthnasol yn y troednodion sy’n cyfeirio at rifau Pennod Deddfau Seneddol.

Gan ei bod yn rhaid i’r Gorchymyn sy’n cael ei osod o flaen y Cynulliad gynnwys dyddiad dod i rym (yn y pennawd ac yn Erthygl 1(1)), dylai’r dyddiad hwn ymddangos ar y copi sy’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor.

Dylai’r cyfeiriad yn y cymal a lofnodwyd at Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 gynnwys troednodyn.

Tybir mai’r cwmnïau perthnasol yw Mortgages 1, 2 a 4 Limited ac nid 3.

**M German**

Cadeirydd, Pwyllgor Deddfau

7 Rhagfyr 1999

Ein cyf: LAD 01-01-037

LC25

OFFERYNNAU STATUDOL

1999 Rhif (Cy. )

## TAI, CYMRU

**Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru)1999**

NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu tri chorff yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 156 o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau o dan yr hawl i brynu). Pennwyd cyrff eraill drwy orchmynion blaenorol.

Mae'r cyrff hyn hefyd yn dod yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 36 o Ddeddf 1985 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau gwirfoddol gan awdurdodau lleol) ac adran 12 o Ddeddf Tai 1996 (blaenoriaeth arwystlon ar warediadau gwirfoddol gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig).

Yn ychwanegol, gan fod adran 156 o Ddeddf Tai 1985 yn cael ei chymhwyso gan adran 171A o'r Ddeddf honno at achosion lle diogelir hawl tenant i brynu a chan adran 17 o Ddeddf Tai 1996 at achosion lle mae gan denant hawl i gaffael o dan adran 16 o'r Ddeddf honno, daw'r cyrff a benwyd yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion yr hawliau hynny.

STATUTORY INSTRUMENTS

1999 No. (W. )

## HOUSING, WALES

The Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 1999

EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order specifies three bodies as approved lending institutions for the purposes of section 156 of the Housing Act 1985 (priority of charges on disposals under the right to buy). Other bodies have been specified by previous orders.

Such bodies also become approved lending institutions for the purposes of section 36 of the 1985 Act (priority of charges on voluntary disposals by local authorities) and section 12 of the Housing Act 1996 (priority of charges on voluntary disposals by registered social landlords).

In addition, as section 156 of the Housing Act 1985 is applied by section 171A of that Act to cases in which a tenant's right to buy is preserved and by section 17 of the Housing Act 1996 to cases in which a tenant has the right to acquire under section 16 of that Act, the specified bodies become approved lending institutions for the purposes of those rights.

STATUTORY INSTRUMENTS

OFFERYNNAU STATUDOL

1999 Rhif (Cy. )

1999 No. (W. )

## HOUSING, WALES

## TAI, CYMRU

# The Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 1999

# Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru)1999

***Wedi'i wneud 1999***

**Yn dod i rym 1999**

*Made 1999*

*Coming into force 1999*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 156 (4) o Ddeddf Tai 1985[a] a drosglwyddwyd iddo, i'r graddau eu bod yn arferadwy yng Nghymru, drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999[b]

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 156(4) of the Housing Act 1985[a] which were transferred to it, so far as exerciseable in Wales, by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999[b] .

**Enwi, cychwyn a chwmpas**

**Citation, commencement and extent**

**1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 1999 a daw i rym ar 1999.

**1.**-(1) This Order may be cited as the Housing (Right to Buy) (Priority of Charges) (Wales) Order 1999 and shall come into force on 1999.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru'n unig.

(2) This Order extends to Wales only.

## Cyrff a bennir

## Specified bodies

**2.** Pennir y cyrff canlynol yn sefydliadau benthyg cymeradwy i ddibenion adran 156[c] o Ddeddf Tai 1985 (blaenoriaeth arwystlon)-

(a) Mortgages 1 Limited – Rhif y Cwmni 3186649

(b) Mortgages 2 Limited - Rhif y Cwmni 3587558

(c) Mortgages 4 Limited - Rhif y Cwmni 3695068

**2.** The following bodies are specified as approved lending institutions for the purposes of section 156[c] of the Housing Act 1985 (priority of charges)-

(a) Mortgages 1 Limited - Company No. 3186649

(b) Mortgages 2 Limited - Company No. 3587558

(c) Mortgages 4 Limited - Company No. 3695068

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998.

1999

1999

Llywydd y Cynulliad Presiding Officer of the Assembly